

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX  
Dydd Iau, 22ain Medi, 2016 am 10.00 am

Dolen gyswllt: Hannah Williams (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 20 Medi 2016. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Medi 2016 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 10)**

**3. ADRODDIAD ER GWYBODAETH – CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD – DIWEDDARIAD I ADRAN 3A**

Er gwybodaeth, mae'r diweddariadau canlynol wedi'u gwneud i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd ([3A - Link](#))

- Adran 1.16 – Cworwm ar gyfer Pwyllgor y Cabinet
- Aelodaeth a Chylch Gorchwyl

**(Tudalennau 11 - 38)**

**4. RHAGLEN WAITH Y CABINET: BLWYDDYN Y CYNGOR, 2016-17**

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd y Cabinet sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod dros Flwyddyn 2016-17 y Cyngor ar gyfer bwrw sylw, a chymeradwyo.

**(Tudalennau 39 - 62)**

**5. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN GWEITHREDU STRATEGAETH CYNHALWYR (GOFALWYR) CWM TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau ynglŷn â hynt y gwaith o baratoi Strategaeth newydd Cwm Taf ar gyfer Cynhalwyr yn dilyn y broses ymgynghori â'r cyhoedd, gan adeiladu ar adroddiad blaenorol a gafodd ei gyflwyno ar 19 Ebrill 2016.

**(Tudalennau 63 - 94)**

**6. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN GWEITHREDU - CARFAN INTEGREDIG CYMORTH I DEULUOEDD CWM TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno i Aelodau'r cytundeb cyfreithiol arfaethedig a'r atodlen ariannol i lywodraethu'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig Cwm Taf.

**(Tudalennau 95 - 140)**

**7. GWEITHDREFNAU SYLWADAU A CHWYNION Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL: ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016.

**(Tudalennau 141 - 160)**

**8. FY NHROTHWY FY HUN – CYNLLUN AR GYFER TAI YN HWYRACH MEWN BYWYD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio sêl bendith ar gyfer y fersiwn ymgynghori drafft o'r ddogfen 'Fy Nhrothwy Fy Hun - Cynllun ar gyfer Tai yn Hwyrach mewn Bywyd', sy'n ddogfen darparu cyflenwol i Gynllun Darparu Tai Lleol 2013-18.

**(Tudalennau 161 - 206)**

**9. RHONDDA CYNON TAF SY'N GORFFOROL WEITHGAR – CYNLLUN STRATEGOL TYMOR CANOLIG AR GYFER GWASANAETH HAMDDEN 2016-2020 RHCT**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n cynnwys fframwaith strategol diwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Hamdden yn dilyn adborth cyn y cam craffu a chan bartneriaid allweddol.

**(Tudalennau 207 - 250)**

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â chanlyniad y broses ymgynghori a cheisio sêl bendith cyn ei ryddhau.

**(Tudalennau 251 - 284)**

**11. GWEITHREDU BUDDION STAFF RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n nodi argymhellion i weithredu ystod o fuddion staff ychwanegol.

**(Tudalennau 285 - 288)**

**12. CANLYNIADAU CYFNOD SYLFAEN, CYFNODAU ALLWEDDOL 2 A 3 A CHANLYNIADAU DROS DRO CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER 2016**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi adborth cychwynnol i'r Aelodau ynglŷn â chanlyniadau Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2, 3, a 4 ar gyfer 2016.

**(Tudalennau 289 - 298)**

**13. CYNLLUN ARIANNOL Y TYMOR CANOLIG 2016/17 HYD AT 2019/20**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi'r diweddaraf parthed Cynllun Ariannol y Tymor Canolig ar gyfer 2016/17 hyd at 2019/20, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth gyllideb 2017/18 yn ystod misoedd yr hydref.

**(Tudalennau 299 - 338)**

**14. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR CHWARTER 1**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Cynghorwyr am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2016), o ran materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 339 - 356)**

**15. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. S. Jones', written in a cursive style.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** A Morgan (Cadeirydd)  
M Webber (Is-gadeirydd)  
R Bevan  
A Crimmings  
M. Forey  
(Mrs) E. Hanagan  
G. Hopkins  
M Norris  
(Mrs) j. Rosser

**Swyddogion:**

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Paul Lucas, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd:  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd